



Vale School Governors' Association Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro and Governor Support Unit

Llythyr Newyddion

Nodyn gan y Cadeirydd

Mae'r awyrgylch yn ddiflas iawn yn dilyn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio ar yr hyn y bydd yn ei olygu i Gymru. Fel Llywodraethwyr, rydym yn aros i glywed am y canlyniadau i Addysg ym Mro Morgannwg. Nid yw'r arwyddion yn dda.

Bydd eich cynrychiolwyr yng Nghymdeithas Llywodraethwyr Ysgol y Fro yn cyfrannu i'r ddadl trwy gyfrwng Fforwm y Gyllideb Addysg, gan ddadlau'n gryf iawn o blaid ysgolion.

Un o'r colledion cyntaf yw'r Gynhadledd Flynyddol i Lywodraethwyr a gynhelir yng Ngwesty Vale ac a fu'n gymaint o uchafbwynt yn ein rhaglen ers sawl blynedd. Yn hytrach, byddwn yn ymuno â Chynhadledd Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol Consortiwm Canol De Cymru, a gynhelir ddydd Sadwrn 5 Mawrth 2011 yn swyddfa ESIS yn

Nantgarw. Fodd bynnag, bydd un fantais o wneud hyn, sef y byddwn yn cael y cyfle i drafod gyda llywodraethwyr mewn awdurdodau lleol eraill, gan gymharu profiadau mewn cyd-destun ehangach.

Ond yng nghanol yr holl ddiflastod, mae rhywbeth wedi digwydd sy'n ein hatgoffa o'r pethau pwysig mewn bywyd. Ddydd Mercher diwethaf, ganwyd fy yr cyntaf. Pa fath o fyd y bydd Gethin yn ei weld? Nid yw'n ymwybodol o faterion ynghylch cyllido a'r ddyled genedlaethol eto, er y mae'n sir y bydd hyn yn cael effaith arwyddocaol arno dros y blynedd nesaf. Un diwrnod, efallai y bydd ef yn Llywodraethwr Ysgol hefyd, yn ogystal â chwarae rygbi i Gymru.

Martin Price

Cadeirydd VSGA ac Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn, Y Barri

Mae'ch Ysgol yn rhan o Ymrwymiad Lleihau Carbon (CRC) gorfodol

Fel cyngor, rydym ym mlwyddyn adrodd gyntaf Cynllun Effeithlonrwydd Ynni CRC ar hyn o bryd. Mae hwn yn gynllun gorfodol yn y D.U. lle y mae'n rhaid i sefydliadau sy'n cymryd rhan ynddo fonitro'u defnydd o ynni, a phrynu lwfansau a werthir gan y Llywodraeth ar gyfer pob tunnell o garbon deuocsid sy'n cael ei ollwng ganddynt. Yna, gosodir pawb sy'n cymryd rhan mewn tabl cynghrair a bydd eu safle yn dibynnu ar eu perfformiad ym maes lleihau carbon. Er mwyn gwneud yn dda yn y cynllun, nod y Fro yw sicrhau gostyngiad sylweddol yng nghyfanswm y gollyngiadau flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Ar hyn o bryd, rydym yn gosod Darllenwyr Mesuryddion Awtomatig (AMR) ym mhob ysgol, yn lle'r mesuryddion ynni presennol. Bydd y mesuryddion newydd hyn yn cymryd mesuriadau bob hanner awr, gan gyflwyno'r data i'r cyflenwr ac i'r cwsmer yn uniongyrchol. Ni fydd yn rhaid i'ch ysgol wastraffu amser yn cywiro biliau amcangyfrifedig mwyach, oherwydd y byddant oll yn cael eu seilio ar ddarlleniadau go iawn.

Yn ogystal â biliau manwl, bydd AMR yn galluogi'ch ysgol i gadw golwg llawer manylach ar gyfanswm yr ynni y mae'n ei ddefnyddio. Trwy droi at ddata fesul hanner awr, bydd modd gweld unrhyw arbedion ynni posibl.

Helpwch ni i godi ymwybyddiaeth o weithgarwch arbed ynni gan bod gostwng gollyngiadau yn newyddion da i'r amgylchedd ac i gyllideb eich ysgol hefyd!

David Powell

Rheolwr Ynni, Cyngor Bro Morgannwg

Ffôn: 01446 709576 • e-bost: DPowell@valeofglamorgan.gov.uk

Rhifyn 21 Tymor Hydref 2010

Pwyntiau arbennig o ddiddordeb:

- Ffurfiwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lanswyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 llywodraethwr etholedig ynghyd â 2 gynrychiolydd etholedig sy'n llywodraethwyr sy'n rhieni

Sefydlwyd VSGA i:

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid i sicrhau adnoddau digonol i ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud â llywodraethu ysgolion a rheoli a darparu adnoddau i ysgolion, i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

Gwasanaeth Gwella Ysgolion 2010-11

Mae gennym flwyddyn brysur arall o'n blaenau ym maes gwella ysgolion. Cynhaliwyd y dadansoddiad blynyddol o'r perfformiad, a bydd canlyniadau hwn yn cynnig ffocws ar gyfer gwaith y Gwasanaeth Gwella Ysgolion. O ganlyniad i hyn, lluniwyd ffoci perthnasol ar gyfer gwaith y Rhaglen Adolygu a Datblygu (A a D) a Chymorth wedi'i Dargedu.

Yn ei hanfod, gwaith y Cynghorwyr Cyswllt mewn Ysgolion Cynradd, Babanod, Iau, Arbennig a Meithrin a Thim y Cynghorwyr Cyswllt mewn Ysgolion Uwchradd yw gwaith y Rhaglen A a D.

Yn ei hanfod, gwaith y Tim Cymorth wedi'i Dargedu yw gwaith ein Cynghorwyr Datblygiad Cwricwlwm a phwnc ym mhob ysgol, gan gynnwys Ysgolion Arbennig ac UCDAu.

Rhennir canlyniadau gweithgarwch dadansoddi data ar gyfer yr Awdurdod yn ystod Cyfarfodydd Penaethiaid, ond gallwn nodi eisoes bod gweithgarwch dadansoddi wedi datgelu'r angen i gynyddu ffocws ein gwaith ar ddatblygu ysgrifennu yng Nghyfnodau Allweddol 1, 2 a 3. Bydd cyswllt agos rhwng hyn ac adolygiad o bolisi a gweithdrefnau asesu.

Cynhelir gwaith cychwynnol gyda phob ysgol, ond cynhelir gwaith dilynol gydag ysgolion a dargedir mewn dwy gyfran ar draws dwy flwyddyn academaidd.

Rydym wedi llunio pecyn cymorth ar gyfer ysgolion a dargedir, sy'n cyfuno arbenigedd ein Cynghorwyr a'n CCDwyr Dal i Fyny gydag arbenigedd ychwanegol Ros Wilson. Ros yw awdurdod y rhaglen arobryn er mwyn datblygu ysgrifennu, Big Writing, ac mae wedi cytuno gweithio gyda ni i ddatblygu rhaglen fwy pwrpasol ar gyfer ysgolion y Fro. Cynhelir y rhaglen gymorth dros y flwyddyn academaidd lawn.

Cynllun Gweithredu ar ôl yr Arolygiad o'r Gwasanaethau Addysg yn y Fro.

Mae'n Cynllun Gweithredu ar ôl yr Arolygiad (PIAP) yn rhoi sylw i'r argymhellion allweddol a wnaethpwyd yn ein Harolygiad Estyn a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2010. Fel rhan o'n rhaglen i ddelio gyda'r rhain, rydym wedi gwneud rhai newidiadau, fel y nodir isod:

1. Pecyn Data Ysgol Estynedig y Fro: Cyfarfod Adolygu Perfformiad Blynyddol (APR)

Yn ystod Tymor yr Hydref, anfonir Pecyn Data Ysgol Estynedig y Fro at ysgolion, a fydd yn nodi perfformiad disgyblion unigol sy'n agored i niwed. Defnyddir y wybodaeth hon er mwyn:

- nodi'r disgyblion hynny a allai fod mewn perygl o dangyflawni yn y dyfodol efallai
- gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a gynigir er mwyn eu cynorthwyo. Defnyddir y pecyn data gan Gynghorwyr Cyswllt a'n Cynghorwyr AAY er mwyn cynorthwyo ysgolion i barhau i gynnig darpariaeth effeithiol i ddisgyblion unigol, er mwyn gwella canlyniadau a lles.

Yn ogystal, bydd y Pecyn Data Ysgol estynedig yn cynnwys crynodeb o'r Set Ddata Graidd y mae ysgolion yn ei chael gan APADGOS ar hyn o bryd.

2. Gosod Targedau a herio.

Fel rhan o'n hymdrech i barhau i wella canlyniadau a lles pob dysgwyr ym mhob lleoliad, rydym yn adnewyddu ein ffocws ynghylch defnyddio Data Ymddiriedolaeth Teulu Fischer er mwyn cyfrannu at ein gweithdrefnau gosod targedau mewn ysgolion. Ein nod yw datblygu dealltwriaeth ar y cyd ynghylch defnyddio bandiau gosod targedau priodol a gweithdrefnau ar gyfer grwpiau o ddisgyblion. Bydd y ddealltwriaeth hon ar y cyd yn canolbwyntio ar yr angen i sicrhau bod targedau yn ddigon heriol i'n holl grwpiau o ddysgwyr.

3. Gweithgarwch Hunanwerthuso Ysgol, Cynllunio Gwelliant Ysgolion a Fframwaith Arolygu Cyffredin newydd Estyn (CIP)

Er mwyn darparu adnoddau cynllunio i ysgolion sy'n adlewyrchu'r CIF newydd yn y ffordd orau, mae Cynghorwyr wedi creu amrediad o dempledi dewisol ar gyfer ysgolion. Er enghraifft:

- Templed Adroddiad Hunanwerthuso (SER)
- Dau fersiwn o Dimpled Cynllunio Gwelliant Ysgol (SIP). Wrth gwrs, mae croeso i ysgolion ddefnyddio pa bynnag ffurf y maent yn ei ddymuno, fodd bynnag, mae Estyn wedi gwneud cais bod yr SER yn dilyn CIF, a byddai'n gwneud synnwyr sicrhau bod hyn yn cyd-fynd gyda'r SIP.

Yn ogystal, rydym wedi paratoi Offeryn Archwilio Estyn cyflym gan ddefnyddio Cwestiynau Estyn o'i Lawlyfr Hunanwerthuso. Diben hwn yw cynnig cymorth i ysgolion wrth iddynt hunanwerthuso. Bydd hwn ar gael i ysgolion ar ffurf electronig.

Yn ogystal, i ysgolion a fydd yn cael eu harolygu eleni, bydd amser ychwanegol ar gael gyda Chynghorwyr er mwyn cynorthwyo Penaethiaid sy'n ysgrifennu eu Hadroddiad Hunanwerthuso.

4. Proffil Effeithiolrwydd Ysgol (SEP)

Anfonir copïau electronig o'r SEP i ysgolion. Y bwriad yw sicrhau bod y defnydd a wneir o SEP yn cyd-fynd gyda ffoci y Rhaglen A a D. Bydd Cynghorwyr Cyswllt yn ymgysylltu gyda Phenathiaid mewn deialog broffesiynol ynghylch meysydd penodol a nodwyd gan yr ysgol trwy ddefnyddio'r SEP. Fel hyn, bydd modd dangos y camau nesaf y mae angen eu cymryd er mwyn gwella effeithiolrwydd mewn unrhyw faes penodol, yn well o fewn y SEP.

Lynette Jones

Pennaeth Gwella Ysgolion a Dysgu Cymunedol i Oedolion
Bro Morgannwg

Sesiynau Briffio a Diweddariad Addysg

Mewn menter ar y cyd a gytunwyd rhwng yr Uned Cefnogi Llywodraethwyr (GSU) a Chymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA), lansiodd digwyddiad allweddol newydd i gyrrff llywodraethu yn y Fro yn 2009.

Mae'r Sesiynau Briffio a Diweddariad Addysg yn cynnig cyfle i:

- **Bryan Jeffreys** – Cyfarwyddwr Dysgu a Datblygu
- **Paula Ham** – Pennaeth Gwasanaeth dros Gynllunio Strategol a Pherfformiad
- **Lynette Jones** – Pennaeth Gwasanaeth dros Gyflawniad
- **Caroline Rees** – Pennaeth Gwasanaeth dros Anghenion Dysgu Ychwanegol

i friffio ac i roi diweddariad i holl Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion cyrrff llywodraethu ysgolion y Fro ynghylch y mentrau lleol a chenedlaethol presennol ac unrhyw fentrau lleol a chenedlaethol sydd ar y gorwel.

Yn ogystal, bydd y Panel yn ymateb i gwestiynau a gyflwynwyd ymlaen llaw gan Bwyllgor Rheoli VSGA, Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion cyrrff llywodraethu.

Pwy sy'n gallu mynychu?

Mae croeso i Bwyllgor Rheoli VSGA, Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion cyrrff llywodraethu fynychu'r Sesiynau Briffio a Diweddariad Addysg. Os na fydd modd i Gadeirydd a/neu Is-Gadeirydd fynychu, gall y Cadeirydd/CLI enwebu rhywun o'r corff llywodraethu i fynychu yn eu lle.

A fydddech gystal ag ymdrechu i sicrhau bod rhywun yn cynrychioli eich corff llywodraethu yn y digwyddiadau allweddol hyn.

Bu'r tri digwyddiad a gynhaliwyd yng Ngwesty Mount Sorrel, Y Barri yn llwyddiannus iawn a gwelwyd cynrychiolaeth yno o gyrrff llywodraethu ar draws y Fro. Roedd y sylwadau a'r adborth a gafwyd ynghylch y digwyddiadau yn cynnwys:

- *"Roedd hi'n dda cael cyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth ac i feithrin dealltwriaeth o'r weledigaeth a'r amcanion ar gyfer y dyfodol."*

- *"Mae cyswllt uniongyrchol rhwng llywodraethwyr a chyfarwyddwr a Phenathiaid Gwasanaeth yr AAL yn sicrhau cyfathrebu da gyda chyrrff llywodraethu"*

- *"Bu hwn yn ddechrau addawol iawn. Os bydd y sesiynau a gynhelir yn y dyfodol gystal â hon, ni fydd llywodraethwyr yn dymuno'u colli. Da iawn, menter wych."*

Mae'r digwyddiadau wedi ystyried meysydd megis:

- *Sut fyddaf yn gwybod a yw fy ysgol yn gwella? - Monitro, Gwerthuso ac Adrodd (MGA)*
- *Adolygu Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLGau) yn y Fro*
- *Grwpiau sy'n Agored i Niwed, yn enwedig 'Plant sy'n Derbyn Gofal'*

gan ddelio gydag ystod eang o gwestiynau ynghylch cyllid, rheolaeth effeithiol ysgolion, ymgynghoriad ynghylch trafndiaeth i'r rhai dros 16 oed.

Byddwn yn parhau i drefnu'r digwyddiadau allweddol hyn yn ystod 2010/11, gan gynnal Sesiwn Friffio a Diweddariad Addysg yn ystod tymor yr Hydref 2010 a thymor yr Haf 2011, a bwriedir cynnal Cynhadledd Flynyddol i Lywodraethwyr rhwng y ddau ddigwyddiad hwn yn ystod tymor y Gwanwyn 2011.

Dyma fanylion y Sesiwn Friffio a Diweddariad Addysg a gynhelir yn ystod tymor yr Hydref:

Dyddiad: Nos Fawrth 7 Rhagfyr 2010

Amser: 6.30pm

Lleoliad: Gwesty Mount Sorrel, Y Barri

Efallai y bydd cyrrff llywodraethu yn dymuno cynnwys y 'Sesiynau Briffio a Diweddariad Addysg' fel eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd eu corff llywodraethu llawn, er mwyn trafod adborth o'r sesiynau ac ystyried unrhyw gwestiynau yr hoffent eu gofyn i'r Panel mewn sesiynau yn y dyfodol.

Jeremy Morgan

Uned Cefnogi Llywodraethwyr

Aelodaeth Pwyllgor Rheoli 2010-12

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig ac un Cynrychiolydd Rhieni-lywodraethwyr o'r sector Cynradd ac un Cynrychiolydd Rhieni-lywodraethwyr o'r sector Uwchradd.

Rhif	Teitl	Llythren enw cyntaf	Cyfenw	Ysgol
1	Cyng Mrs	M	Alexander	Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd High Street
2	Dr	C	Brown	Ysgol Gynradd Y Wig a Marcroes yr Eglwys yng Nghymru
3	Mr	N	Craggs	Ysgol Gynradd Gwenfô yr Eglwys yng Nghymru
4	Cyng Mr	C	Elmore	Ysgol Gynradd Holton
5	Mrs	M	Gibbs	Meithrinfa Tregatwg ac Ysgol Llanilltud Fawr
6	Mrs	S	Hodges	Ysgol Sant Baruc ac Ysgol Gwaun y Nant
7	Mr	K	Ingram	Ysgol Ashgrove ac Ysgol Gynradd Albert
8	Cyng Mr	G	Kemp	Ysgol Gyfun y Bont-faen ac Ysgol Gynradd y Rhws
9	Mrs	A	Males	Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Gyfun St Cyres
10	Mr	M	Mason	Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr
11	Mrs	J	Pearce	Ysgol Llanilltud Fawr ac Ysgol Gynradd Y Wig a Marcroes yr Eglwys yng Nghymru
12	Dr	M	Price	Ysgol Gatholig St Richard Gwyn
13	Mr	P	Sampson	Ysgol Gynradd Tregatwg
14	Mr	D	Treharne	Ysgol Gwaun y Nant
15	Cyng Mr	M	Wilson	Ysgol Gynradd Albert ac Ysgol Gynradd Victoria
CRh-L	Mr	P	Lewis	Ysgol Gyfun y Bont-faen
CRh-L	Mr	S	Williams	Ysgol Gynradd y Rhws
Arsylwyr	Mrs	G	Evans	Ysgol Iolo Morganwg
Arsylwyr	Mr	G	Scott	Ysgol Gynradd High Street

Sesiynau Hyfforddiant i Lywodraethwyr – Hydref 2010

Dylai pob llywodraethwr fod wedi cael copi o'r Rhaglen Hyfforddiant i Lywodraethwyr ar gyfer tymor yr Hydref yn barod. Isod, nodir manylion y cyrsiau sy'n weddill.

Os hoffech archebu lle ar unrhyw rai o'r cyrsiau hyfforddiant, ffoniwch yr Uned Cefnogi Llywodraethwyr ar 01446 709106/8 neu anfonwch e-bost at: governors@valeofglamorgan.gov.uk

Jeremy Morgan
Governor Support Unit

Dyddiad	Cwrs	Amser	Lleoliad
Nos Fawrth 30 Tachwedd	Gweithio mewn partneriaeth gyda'ch Cynghorydd Cyswllt er mwyn trafod data ynghylch perfformiad yr ysgol a gosod targedau	7.00-9.00pm	Gwesty Mount Sorrel, Y Barri
Nos Fawrth 7 Rhagfyr	Sesiwn Frifio a Diweddariad Addysg (Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion)	6.30-8.30pm	Gwesty Mount Sorrel, Y Barri

Gwobrau Rhagoriaeth ym maes TGCh

Mae Gwobrau Rhagoriaeth ym maes TGCh yn gynllun gwobrwyo i ysgolion, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill sy'n cynorthwyo ysgolion. Nod y gwobrau hyn yw nodi a gwobrwyo rhagoriaeth ysgol gyfan ym maes TGCh, gan wobrwyo'r sefydliadau hynny sy'n cynorthwyo ysgolion i sicrhau gwelliant ym maes TGCh.

Gan ddatblygu fframwaith hunan-adolygu Becta a'r Marc TGCh, maent yn cynnig enghreifftiau eglur o arfer rhagorol mewn ysgolion a sefydliadau ar draws y DU.

Cyhoeddwyd enwau'r ysgolion a'r sefydliadau buddugol yng Ngwobrau Rhagoriaeth TGCh 2010 ar ddydd Iau, 14 Hydref 2010.

Ysgol Gynradd Gyfan Orau yn y DU

Cyd-enillydd: Ysgol Gynradd Ynys y Barri, Y Barri

Ysgol Gyfan Orau – Cymru

Enillydd: Ysgol Gynradd Ynys y Barri, Y Barri

Mae TGCh i'w weld bobman yn Ysgol Gynradd Ynys y Barri! Mae'r weledigaeth greadigol a chraff wedi arwain at ddiwylliant dysgu byrlymus a chyffrous lle y mae'r holl blant yn ddefnyddwyr technoleg medrus iawn. Mae'r weledigaeth yn llwyddo i ymestyn allan a chynnwys anghenion rhieni, teuluoedd a dysgwyr gydol oes yn y gymuned ehangach.

Mae plant wrth wraidd y defnydd naturiol o TGCh yn yr ysgol bob amser. Anogir technolegau newydd ac mae'r ysgol yn cymryd camau rhagweithiol wrth brofi a threialu, er mwyn caniatáu i'r plant arbrofi a darganfod sut y gall adnoddau megis i-pads ac i-touches gynorthwyo'u dysgu. Mae cwricwlwm yr unfed ganrif ar hugain yn cynnwys technoleg fel rhan arferol o gynnwys, proses a chyflwyniad y dysgu.

Mae gan Ynys y Barri ddisgwyliadau uchel, fel y gwelwyd wrth i rai plant gael eu hannog i ddechrau ar gymwysterau sy'n cyfateb gyda chymwysterau TGAU ym Mlwyddyn 6, a chaiff cymorth parhaus ei gynnig iddynt hyd yn oed ar ôl iddynt symud i ysgol arall. Yn ogystal, mae'n creu cyfleoedd i bob plentyn wneud eu gorau o oedran cynnar. Mae plant ifanc yn creu eu lle eu hunain ar y we, yn cymryd lluniau, yn creu fideos ac yn lanlwytho'u gwaith er mwyn ei rannu gyda ffrindiau a'r teulu yn y cartref. Maent yn cael eu hannog bob amser i wneud dewisiadau gwybodus ac annibynnol ynghylch ble a phryd i ddefnyddio TGCh.

Llywodraeth Cynulliad Cymru – Porthol Ysgolion

Mae'n bleser gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) gyhoeddi bod ei Phorthol Ysgolion newydd bellach ar gael. Diben hwn yw cynnig un man lle y bydd modd troi at nifer o wefannau allweddol, a allai fod yn ddefnyddiol iawn i ysgolion a llywodraethwyr. Nodir cyfeiriad y wefan isod:

www.schoolportalwales.org.uk

Mae'r wefan yn cynnig dewis i chi o sawl gwefan a allai fod o ddefnydd i chi; mae modd i chi droi at y gwefannau hyn trwy glicio ar y logo. Bydd LICC yn ychwanegu rhagor o gysylltiadau yn y dyfodol.

Wendy Evans
Swyddog Gwybodaeth Cynorthwyol
Cyngr Bro Morgannwg

Cyflwyniad i Gynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru

Mae Cynllun Ysgolion Iach Bro Morgannwg yn rhan o WNHSS ac yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Nod y cynllun yw hyrwyddo a diogelu iechyd a lles corfforol, emosiynol a chymdeithasol plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi cydnabod bod y Cynllun Ysgolion Iach yn cyflawni rôl allweddol wrth hyrwyddo iechyd plant a phobl ifanc, ac mae wedi cael ei gyflwyno ar draws Cymru er 2000 ac mae'n rhan o gynllun Ysgolion Hybu Iechyd Ewrop (SHE).

Mae pob ysgol a gynhelir yn y Fro yn cymryd rhan yn y Cynllun.

Rheolir cynllun y Fro gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n cael ei gynorthwyo gan yr Awdurdod Addysg Lleol a chan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae egwyddorion sylfaenol y cynllun fel a ganlyn:

- Pwysigrwydd cyfranogiad disgyblion o fewn meysydd craidd ym mywyd yr ysgol sy'n effeithio ar iechyd a lles
- Pwysigrwydd dealltwriaeth ac ymrwymiad cymuned yr ysgol gyfan
- Ymagwedd gadarnhaol tuag at iechyd
- Tegwch
- Cysylltiadau gyda pholisïau a rhaglenni lleol a chenedlaethol eraill

Caiff ysgolion eu helpu i nodi a gweithredu ystod o weithgareddau a rhaglenni sy'n adlewyrchu targedau iechyd lleol a chenedlaethol, wedi'u gosod o fewn fframwaith:

- Arweinyddiaeth a chyfathrebu
- Cwricwlwm
- Ethos ac amgylchedd
- Cyswllt teuluol a chymunedol

Beth y mae gofyn i Ysgol Iach ei wneud?

Bydd pob ysgol yn penodi Cydlynnydd yn yr Ysgol sy'n gyfrifol am gydlynu'r cynllun yn eu hysgol, gyda chymorth tîm Ysgol Iach yn ddelfrydol.

Mae gofyn i ysgolion ddatblygu, gweithredu, a dangos tystiolaeth o gynlluniau gweithredu iechyd blynyddol. Ar ddiwedd pob blwyddyn, asesir ysgolion gan dîm o aseswyr a hyfforddwyd yn lleol. Dyfarnir plac gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r ysgolion hynny sydd wedi bodloni'r safon angenrheidiol ac sydd wedi cyflawni eu targedau Ysgolion Iach, a chyflwynir hwn mewn seremoni wobrwyo flynyddol.

Cyflwynwyd Gwobr Ansawdd Genedlaethol WNHSS yn 2009.

Er mwyn bod y gymwys i gael y wobwr, rhaid bod ysgol wedi bod yn cymryd rhan yn ei chynllun ysgolion iach lleol am 9 mlynedd neu fwy, ac wedi cyflawni'r holl ddangosyddion a amlinellir yng Ngwobr Ansawdd Genedlaethol Cynllun Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru." LICC 2009, gyda chymorth amrywiaeth o dystiolaeth ar gyfer y camau gweithredu a gymrwyd.

Cyfleoedd i Gynorthwyo'ch Ysgol Iach

Ar draws y Cynllun Ysgolion Iach, mae'r pwyslais ar yr angen am ddull gweithredu ysgol gyfan, ac mae cymorth y rheolwyr uwch a llywodraethwyr yr ysgol yn arbennig o bwysig wrth sicrhau bod iechyd a lles yn rhan annatod o'r ysgol.

Efallai y byddai llywodraethwyr y mae ganddynt ddi-ddordeb penodol mewn iechyd a lles yn dymuno ystyried cyflawni rôl llywodraethwr cyswllt ar gyfer Cydlynnydd Ysgolion Iach eu hysgol.

Yn ogystal, ceir cyfleoedd i un llywodraethwr Ysgol neu fwy i eistedd ar y Gr p Llywio Ysgolion Iach neu'r Is-grwp Maeth.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Carol Maher
Cydlynnydd Ysgolion Iach Bro Morgannwg
Ffôn. 02920 350627
E-bost: carol.maher@wales.nhs.uk

Ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen yn Chwarae i Ddysgu!



Yn ddiweddar, cynhaliodd Cynghorwyr y Cyfnod Sylfaen a Chydlynnydd A.G. a Chwaraeon Ysgol Bro Morgannwg ddiwrnodau hyfforddiant AM DDIM ar gyfer ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen ym maes Datblygiad Corfforol a Symud Creadigol.

Bu'r diwrnodau hyfforddiant yn hynod o boblogaidd, wrth i ymarferwyr o grwpiau chwarae, ysgolion cynradd ac ysgolion meithrin o bob cwr o'r Fro eu mynychu. Bu'r sawl a fynychodd yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithdai er mwyn dysgu mwy am iechyd a lles plant, gan ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sgiliau symud corfforol a chreadigol plant.

"Diwrnod gwych, adnodd gwych."

(Sarah Trigg, Ysgol Gynradd Llanfair)

"Y cwrs gorau a mwyaf perthnasol yr ydw i wedi ei fynychu! Rydw i'n edrych ymlaen at ddefnyddio'r pecyn."

(Liz Stone, Ysgol Gynradd Eagleswell)

Yn ogystal â'r diwrnod hyfforddiant AM DDIM, rhoddwyd bocs o adnoddau dwyieithog i bob ysgol a gr p chwarae *AM DDIM, a oedd yn werth £500 ac a oedd yn cynnwys:

- 3 set o lyfrau straeon A3 ac A5;
- Cardiau Gweithgarwch a Chardiau Sgiliau Technegol er mwyn cynorthwyo ymarferwyr i addysgu sgiliau corfforol;
- Cryno Ddisgiau Sain;
- Poster; a
- CD-Rom Rhyngweithiol a oedd yn cynnwys deunyddiau cymorth cynllunio a deunydd fideo.

*(*Rhoddwyd dau focs adnoddau i ysgolion sy'n cynnwys dau ddosbarth Derbyn neu fwy)*

Hoffai'r Fro gydnabod y bu modd cynnig y diwrnodau hyfforddi a'r adnoddau trwy ddefnyddio cyllid a gafwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC).

Lesley Dancey

Cydlynnydd A.G. a Chwaraeon Ysgol, Cyngor Bro Morgannwg
Ffôn: 01446 701820 • e-bost: LDancey@valeofglamorgan.gov.uk

Partneriaeth Lwyddiannus gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth a Bro Morgannwg

Dros y 3 blynedd ddiwethaf, mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi darparu gweithdai gwrth-hiliaeth i 34 o'r 52 o ysgolion Iau, Cynradd ac Uwchradd ym Mro Morgannwg. Mae hyn wedi golygu bod Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi ymweld â 65% o ysgolion Iau, Cynradd ac Uwchradd. Bellach, mae gan yr ysgolion hyn yr adnoddau i'w defnyddio yn eu hysgolion. Mae gan yr athrawon yn yr ysgolion hyn wybodaeth well a mwy o hyder wrth addysgu gwrth-hiliaeth.

Hyd yn hyn, mae oddeutu 1650 o bobl ifanc wedi cael eu haddysgu ynghylch gwrth-hiliaeth trwy gyfrwng Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Ymateb un disgybl ar ôl gweithdy oedd, "Dywedais wrth yr athro, ond nid oedd yn fy erbyn i, ond fy ffrind. Nid oedd yn gas iawn, ond hiliaeth ydoedd o hyd".

Dyma rai ymatebion gan ysgolion yn y Fro ynghylch y bartneriaeth gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth:

"Menter dda iawn! Roedd y plant wedi mwynhau'r DVD yn fawr; rhoddodd y cyfle i ni gael llawer o drafodaeth."

Ysgol Gynradd Dewi Sant

"Roedd hon yn fenter wych, a byddwn yn parhau i'w chefnogi gyda llawer o frwdfrydedd. Diolch yn fawr!"

Ysgol Gynradd Evenlode

"Digwyddiad gwerth chweil sy'n cynyddu dealltwriaeth disgyblion o hiliaeth."

Ysgol Gynradd Jenner Park

Hon fu'r gystadleuaeth flynyddol fwyaf llwyddiannus eto i ysgolion ar draws Cymru, ac mae ysgolion ym Mro Morgannwg wedi ei chroesawu. Adlewyrchwyd hyn gyda nifer y cofrestriadau, nifer y ceisiadau a nifer yr enillwyr a oedd yn dod o'r Fro.

- Roedd 8.4% o'r cofrestriadau yn dod o Fro Morgannwg
- Roedd 21% o'r ceisiadau yn dod o'r ardal
- Roedd 35% o'r ysgolion a oedd yn cynnwys rhywun a enillodd wobwr yn dod o Fro Morgannwg

Martine Coles

Swyddog Proffesiynol Arweiniol dros Saesneg fel Iaith Ychwanegol, Cyngor Bro Morgannwg
Ffôn: 01446 709130 • e-bost: MNColes@valeofglamorgan.gov.uk

Diweddariad AD

Gwnaethpwyd rhai newidiadau i Gyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (STPCD) yn ystod 2010, fel yr amlygir isod:

Lwfans AAA

Bellach, mae'r lwfans AAA ar ystod o rhwng £2001 a £3954 (yn hytrach na dau lwfans gwahanol ar wahân). Ceir meini prawf penodol sy'n pennu pryd y mae'n rhaid dyfarnu lwfansau AAA a bydd angen i'r corff llywodraethu bennu gwerth y lwfans a nodi'r trefniadau ar gyfer eu dyfarnu yn eu Polisi Cyflog. Amlinellir darpariaethau llawn y newidiadau hyn o fewn STPCD 2010 ac anfonir nodyn briffio at Benaethiaid ynghylch y newidiadau hyn, a fydd yn cynnwys manylion ynghylch trefniadau diogelu. Bydd y trefniadau hyn yn dod i rym ar 1 Medi 2010.

Yn ogystal, bydd rhai newidiadau deddfwriaethol yn effeithio ar staff.

Cael gwared ar yr oedran ymddeol rhagosodedig o fis Hydref 2011

Dan ddeddfwriaeth newydd, ni fydd modd ymddeol rhywun yn gyfreithlon pan fyddant yn 65 oed oni bai bod modd cyfiawnhau hynny mewn ffordd wrthrychol – mae'n annhebygol y byddai ysgol yn gallu bodloni'r prawf hwn. Bydd y newid hwn yn effeithio ar unrhyw un a fydd yn 65 oed ar neu ar ôl 1 Hydref 2011. Bydd y trefniadau presennol lle y bydd modd i gyflogeion wneud cais i barhau i weithio ar ôl iddynt gyrraedd 65 oed, yn cael eu gwaredu. Mae trefniadau cyflwyno fesul cyfnod yn golygu mai'r unig adeg y bydd modd ymddeol rhywun pan fyddant yn 65 oed yw os byddant yn 65 oed cyn 1 Hydref 2011, a byddant yn cael yr hawl i wneud cais i barhau i weithio erbyn 5 Ebrill 2011 fan bellaf. Rhoddir gwybodaeth benodol i benaethiaid yn-

ghylch eu staff a fydd yn cael eu heffeithio gan hyn cyn bo hir.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r Ddeddf hon, a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2010, yn cyfuno ac yn cysoni'r holl gyfreithiau gwrth-wahaniaethu blaenorol (rhyw, anabledd, hil ac ati). Yn ogystal, mae'n caniatáu darpariaethau newydd, gan gynnwys:

- Caiff cyflogeion sy'n gofalu am berson anabl (e.e. plentyn, partner neu riant) eu diogelu rhag gwahaniaethu neu boenydio.
- Gallai cyflogwyr fod yn atebol am unrhyw achosion lle y bydd cyflogeion yn cael eu poenydio gan drydydd parti.
- Gallai gofyn cwestiynau sy'n ymwneud gydag iechyd neu anabledd i ymgeisydd am swydd cyn cynnig y swydd iddynt fod yn wahaniaethol ar sail anabledd. Mae wedi bod yn arfer o fewn y Fro i ofyn am holiaduron iechyd fel rhan o gynnis cyflogaeth amodol yn unig, a byddwn yn adolygu'r holiadur er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda'r Ddeddf newydd. Fodd bynnag, gallai gofyn cwestiynau sy'n ymwneud ag iechyd cyn gwneud cynnig cyflogaeth fod yn wahaniaethol, felly rydym wedi dileu'r adran hon o'r Ffurflen Gais ac yn argymhell na ddylid gofyn cwestiynau ynghylch iechyd/absenoldeb yn ystod y cam cyfweld.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y materion hyn, a fyddech gystal â chysylltu gyda'r Adran Bersonél ar 01446 709125/176/870.

Sue Alderman

Prif Swyddog Personél

Ffôn: 01446 709870

e-bost: stalderman@valeofglamorgan.gov.uk

Cronfa Gwario i Arbed er mwyn Arbed Ynni mewn Adeiladau Ysgol

Fy enw i yw Ben Markham ac rydw i'n Gynorthwydd Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor. Mae gwella effeithlonrwydd ynni ysgolion y Fro er mwyn lleihau ôl troed carbon a chostau tanwydd ysgolion yn rhan o'm rôl. Rydw i'n gweithio gyda'r Rheolwr Ynni i geisio gwella effeithlonrwydd ynni ysgolion gan ddefnyddio nifer o dechnolegau ecogyfeillgar megis inswleiddio lloffydd a waliau ceudod, goleuadau a dulliau rheoli sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ac unrhyw welliannau eraill y mae modd eu gwneud er mwyn arbed ynni ac y mae modd dangos eu bod yn sicrhau digon o arbedion.

Os yw'ch ysgol yn un addas er mwyn cynnal mesurau gwella ynddi, gallwn ddefnyddio'n "cronfa gwario i arbed" er mwyn gosod y mesurau heb i hyn gostio unrhyw beth i'ch ysgol ymlaen llaw. Bydd y mesurau'n talu am eu hunain cyn pen 5 mlynedd fel arfer, gan ddefnyddio cyfran o'r arbedion i'r biliau cyfleustodau sy'n deillio o osod y mesur(au).

Hyd yn hyn, rydym wedi sicrhau llwyddiant mawr yn ys-

golion y Fro. Rydym eisoes wedi cwblhau gwerth £50,000 o brosiectau a fydd yn lleihau costau tanwydd ysgolion gymaint â £17,500 y flwyddyn a chan arbed dros 107 tonnell o garbon y flwyddyn. Yn ystod oes y technolegau, amcangyfrifir y bydd y costau tanwydd is yn arbed dros £1 miliwn i ysgolion, gan leihau cyfanswm y gollyngiadau carbon gymaint â dros 6,000 tonnell.

Rydw i'n ceisio sicrhau dull gweithredu systematig, gan ganolbwyntio ar inswleiddio yn bennaf, a byddaf yn ystyried mesurau eraill yn y dyfodol. Os ydych yn gwybod bod waliau ceudod heb eu llenwi neu lloffydd heb eu hinswleiddio yn eich ysgol chi, a fyddech gystal â chysylltu gyda mi.

Benjamin Markham

Cynorthwydd Cynllun Rheoli Carbon

Ffôn: 01446 709724

e-bost: bmarkham@valeofglamorgan.gov.uk

Cyngor Bro Morgannwg – Pwyllgor Craffu dros Ddysgu Gydol Oes

Cyfarwyddiaeth Dysgu a Datblygu – Adroddiadau'r Cyfarwyddwr Dysgu a Datblygu

Mae modd i ysgolion a llywodraethwyr droi at nifer o adroddiadau sy'n cael eu paratoi ar gyfer Pwyllgor Craffu y cyngor gan y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Datblygu. Mae rhai adroddiadau allweddol a baratowyd y llynedd yn cynnwys:

Dyddiad y Cyfarfod Craffu	Adroddiad
8 Tachwedd	<ul style="list-style-type: none">■ Cwnsela mewn Ysgolion■ Data Perfformio Ysgolion
11 Hydref	<ul style="list-style-type: none">■ Cynllun Amlinellol Strategol Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain■ Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol 2010-2015■ Archwilio Cyngorau Ysgol■ Y Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig■ Cymorth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal■ Y Ddarpariaeth ar gyfer Disgyblion Mwy Abl a Thalentog
13 Medi	<ul style="list-style-type: none">■ Ysgolion Bro■ Adolygiad o'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc■ Cynllun Addysg Gymraeg 2009 - 2014
26 Gorffennaf	<ul style="list-style-type: none">■ Arolygiad Estyn o Ansawdd Gwasanaethau'r Awdurdod Addysg Lleol i Blant a Phobl Ifanc – Cynllun Gweithredu ar ôl yr Arolygiad■ Papur Briffio SEF
28 Mehefin	<ul style="list-style-type: none">■ Arolygiad Estyn – Gwasanaethau Addysg i Blant a Phobl Ifanc ym Mro Morgannwg
2 Mehefin	<ul style="list-style-type: none">■ Strategaeth Fuddsoddi mewn Ysgolion - Diweddariad
19 Ebrill	<ul style="list-style-type: none">■ Cyhoeddiad arfaethedig Hysbysiadau Statudol i Sefydlu Ysgolion Had Newydd yn y Barri ac yn Llanilltud Fawr■ Presenoldeb ac Absenoldebau mewn Ysgolion
15 Chwefror	<ul style="list-style-type: none">■ Ymgynghoriad ynghylch y Ddarpariaeth Drafnidiaeth i ddisgyblion Ôl-16

Mae modd troi at restr lawn yr adroddiadau ar Wefan y Fro:

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/our_council/council/minutes,_agendas__reports/agendas/scrutiny_ll.aspx

Mewn cysylltiad â Chyngor Bro Morgannwg

Uned Cymorth i Lywodraethwyr
Cyngor Bro Morgannwg,
Gwasanaeth Gwella Ysgolion
Provincial House, Kendrick Road, Y Barry CF62 8BF

Manylion cyswllt:

John Sparks

Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820
E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk

Jeremy Morgan

Swyddog Uwch Cymorth i Lywodraethwyr
Ffôn: 01446 709108 Ffacs: 01446 701820
E-bost: JerMorgan@valeofglamorgan.gov.uk



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn â ni, sef VSGA@valeofglamorgan.gov.uk
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

VSGA

Uned Cymorth i Lywodraethwyr
Cyngor Bro Morgannwg
Gwasanaeth Gwella Ysgolion
Provincial House
Kendrick Road, Barry CF62 4BF